# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor – Neuadd y Sir Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 25 Ionawr 2018**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

19/01/2018

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 58)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

To receive any declarations of interest from Members relating to items to be considered on the agenda.

| 4. | CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD |
|---|---|

4.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan Phil Bettley**

Dros ddegawdau, rwyf wedi bod yn ddinesydd da, yn cadw ein cartref a'r amgylchedd yn daclus trwy fynd ag eitemau oedd yn aml yn rhai swmpus

i gyfleuster ailgylchu. Yn aml, rwyf wedi helpu aelodau o'r teulu, cymdogion a ffrindiau i wneud yr un peth, weithiau trwy logi fan.

Am y tro cyntaf yn fy mywyd, mae Cyngor Sir Powys wedi cael gwared ar fy ngallu i wneud hyn trwy fy ngorfodi i gofrestru un cerbyd penodol a fydd yn cael caniatâd i fynd i mewn i'r cyfleuster ailgylchu.

Mae gen i fan fechan ar gyfer defnydd domestig yn unig; mae gan fy ngwraig trelar; weithiau rydym yn llogi fan mwy o faint pan fydd prosiectau'n codi.

Mae eich polisi o orfodi gwastraff Masnachol i dalu am gael gwared ar wastraff yn ddealladwy, ond mae eich proses o gyflawni hyn yn ofnadwy. Fe ddylwn i, ac unrhyw un arall o fy nghyfeiriad, alli fynd â gwastraff nad yw'n wastraff masnachol i'r cyfleuster ailgylchu cynifer o weithiau ag y bo angen, ym mha bynnag cerbyd, fan neu drelar rydym yn ei ddewis.

Eich rôl chi yw gorfodi'r mater o wastraff masnachol, ac wrth wneud hynny, peidio ag atal defnyddwyr domestig rhag cyflawni eu dyletswydd ddinesig.

Cafodd y system drwyddedu gyfredol ei chreu ar frys ac nid yw'n addas i'r diben. A fyddech gystal ag ailfeddwl y broses hon?
(Tudalennau 59 - 60)

4.2. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan Michael McCarthy**

Comisiynwyd prif adolygiad allanol gan Gyngor Powys o wasanaethau plant yn ystod 2015/16. Y dasg oedd datblygu'r gwasanaeth, diwallu ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chadarnhau os oedd arbedion gwerth £2.7m yn bosibl ac yn gynaliadwy.

A ydych chi'n derbyn nad oedd blaenoriaethu diogelu yn gamgymeriad difrifol a gyfrannodd at y methiannau o fewn gwasanaethau plant fel y nodwyd yn adroddiad diweddar AGGCC?

(Tudalennau 61 - 62)

4.3. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan Elizabeth Hunter**

Yn dilyn yr adroddiad hynod feirniadol gan AGGCC, pa sicrwydd gall yr arweinydd ei rhoi bod y diffyg dealltwriaeth amlwg rhwng uwch staff y cyngor ac arweinyddiaeth wleidyddol Cyngor Powys o flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi cael ei datrys yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod anghenion plant sy'n agored i niwed yn cael eu bodloni, ac o ystyried yr arolygiad o wasanaethau oedolion sydd i ddod, pa mor hyderus yw'r arweinydd bod y cabinet yn ddigon ymwybodol o'r holl faterion sy'n wynebu'r gwasanaeth hwnnw?

(Tudalennau 63 - 64)

4.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan Francesca Garman**

O gofio'r opsiynau cyfyngedig ar gyfer gwaredu plastig yn y rhan hon o Bowys, a'r ffaith na all awdurdodau lleol yn gyfreithiol dympio eu gwastraff cyffredinol ar Tsieina bellach, ble mae gwastraff cyffredinol Powys yn mynd a pha fuddsoddiad sydd wedi'i gynllunio i ymdrin ag ailgylchu?
(Tudalennau 65 - 66)

| 5. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 6. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 7. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr Dros Dro.

| 8. | TROSGLWYDDIADAU CYFALAF |
|---|---|

8.1. **Trosglwyddiadau ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai: Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS) Llety ar gyfer Pobl Hyn?**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Aled Davies, Aelod Portffolio ar faterion Cyllid.
(Tudalennau 67 - 70)

8.2. **Trosglwyddiadau ar gyfer Priffyrdd, Cludiant ac Ailgylchu: Cynllun Lliniaru Llifogydd Cam 2 Talgarth, Cynllun Adnewyddu'r Fflyd Ceir, Gweithdai'r Fflyd Ceir**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Aled Davies, Aelod Portffolio ar faterion Cyllid.
(Tudalennau 71 - 74)

| 9. | NEWIDIADAU I'R DDARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Aled Davies, Aelod Portffolio ar faterion Cyllid.
(Tudalennau 75 - 80)

| 10. | GWELLA GWASANAETHAU PLANT |
|---|---|

Ystyried Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant.
(To Follow)

| 11. | ADRODDIADAU GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
|---|---|

Ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
(Tudalennau 81 - 272)

| 12. | DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981, ADRAN 53 DIRPRWYAETH ARFAETHEDIG O BENDERFYNIADAU AR GYFER ACHOS GORCHYMYN DIWYGIO MAP DIFFINIEDIG - LLWYBR O BANKSHEAD, SWYDD AMWYTHIG I SHEPHERDSWHIM, POWYS |
|---|---|

Ystyried argymhellion y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy.
(Tudalennau 273 - 284)

| 13. | PENODI AELOD (LLEYG) ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 285 - 286)

| 14. | BLAEN RAGLEN WAITH Y CYNGOR |
|---|---|

Derbyn blaen raglen waith y Cyngor ar gyfer 2018, er gwybodaeth.
(Tudalennau 287 - 288)

| 15. | RHYBUDDION O GYNIGION |
|---|---|

15.1. **Rhybudd o Gynigion - Gwasanaethau Ieuenctid**

Mae'r Cyngor yn cydnabod:

1: Bod gwasanaethau ieuenctid yn gwneud gwaith hanfodol yn ein cymunedau. Mae'r buddion y maen nhw'n eu darparu ar gyfer pobl ifanc yn rhai go iawn a pharhaol.

2: Er bod llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill yn camu i mewn pan fo problemau'n codi, mae gwasanaethau ieuenctid yn atal nifer o'r anawsterau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf.

3: Mae gwasanaethau ieuenctid yn helpu pobl ifanc i fyw bywydau cadarnhaol fel aelodau o gymdeithas.

4: Mae Canolfannau Ieuenctid mewn lleoliadau strategol ledled Powys yn chwarae rhan hanfodol i ddarparu'r Gwasanaeth Ieuenctid statudol.

5: Mae adeiladau'r Ganolfan Ieuenctid yn aml yng nghanol y gymuned ac yn allweddol i ddarparu gwasanaethau lleol gwerthfawr eraill.

Bod y Cyngor hwn yn penderfynu:

1: Nodi ei bryder am gau Canolfannau Ieuenctid ar draws Powys;

2: Y dylai'r Cabinet ymgysylltu â phobl ifanc ym Mhowys gan ddefnyddio'r cyfryngau, fforymau a chyfarpar y gall pobl ifanc eu defnyddio i ddatblygu cynllun i fuddsoddi mewn cyfleoedd i bobl ifanc.

3: Y dylai'r Cabinet adolygu effaith cau canolfannau ieuenctid ar bobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig a chymunedau tlotach o fewn 12 mis o'r dyddiad cau;

Cynigydd: Cynghorydd Sir Matthew Dorrance
Eilydd: Cynghorydd Sir Huw Williams

15.2. **Rhybudd o Gynnig - Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag**

Dim ond tri Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd wedi defnyddio Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag (EDMO), pwerau a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol i gymryd drosodd eiddo sydd wedi bod yn wag am o leiaf ddwy flynedd. Nid yw Powys yn un ohonynt.

Cyflwynodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn Lloegr Cais Rhyddid Gwybodaeth i Lywodraeth y DU i ddarparu ffigurau anheddau gwag fesul ardal awdurdod lleol ledled y DU. Wedi'i atodi mae'r daenlen a ddarparwyd mewn ymateb i'r cais ac mae'n dangos y ffigurau anheddau gwag ar gyfer pob awdurdod lleol yn y DU ac os ydynt wedi defnyddio'r pwerau uchod. Cofnododd Cyngor Sir Powys 1810 o anheddau gwag gyda 25 yn cael eu defnyddio gan y Cyngor yn 2016/17, er nad oedd y Cyngor wedi darparu ffigurau am ba mor hir roedd y cartrefi hyn wedi bod yn wag. Mae'n un o ddim ond ychydig o gynghorau nad ydynt yn cofrestru'r ystadegau hyn ar hyn o bryd. O'r 279 o awdurdodau lleol ar y rhestr dim ond 65 o awdurdodau ar draws y DU sydd â mwy na 1000 o anheddau gwag.

https://docs.google.com/spreadsheets/d/1mrO1Aj9jQa1tzkG02kI-Xz82dA08l-yrTI4bFre67lI/edit#gid=0

**Cynnig**

Mae Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn annog y Cyngor i ofyn i'r Cabinet i ddarparu dadansoddiad pam fod 1810 o anheddau gwag ym Mhowys ac i ddarparu ffigurau am gyfnod yr amser y mae'r cartrefi hyn wedi bod yn wag; ac mae'n gofyn ymhellach bod Cyngor Sir Powys, yn dechrau defnyddio Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag (EDMO) ar unwaith i helpu lleddfu'r pwysau ar y galw am dai lleol a'r argyfwng tai cenedlaethol.

Cynigydd: Cynghorydd Sir James Gibson-Watt

Eilydd: Cynghorydd Sir John Morris

15.3. **Rhybudd o Gynnig - Dydd Gwyl Dewi**

Bod y Cyngor yn cefnogi'r alwad trawsbleidiol i greu Dydd Gwyl Dewi yn wyl banc cenedlaethol. Yn y cyfamser fod y Cyngor yn cydnabod hyn drwy godi baner Dewi Sant ar safleoedd y Cyngor ar y cyd efo'r Ddraig Goch yn ystod yr wythnos o amgylch y 1af o Fawrth, ac hefyd yn codi baner Glyndwr o amgylch y wythnos sy'n cynnwys yr 16eg o Fedi.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd: Cynghorydd Sir Bryn Davies

15.4. **Rhybudd o Gynnig - Cronfa Bensiwn Powys**

Ym mis Ebrill, bydd Cronfa Bensiwn Powys yn ymuno â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (WPP), cyfuniad o wyth Cronfa ar wahân ar draws Cymru. Unwaith y bydd y broses hon wedi digwydd, bydd y gwaith yn cychwyn ar lywodraethu amgylcheddol a chymdeithasol (ESG) o Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gan bob Cronfa unigol yn y bartneriaeth y cyfle i gyfrannu at y broses hon trwy nodi meysydd o flaenoriaeth llywodraethu amgylcheddol a chymdeithasol ac i lobio i gael y rhain wedi'u cynnwys ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'n amserol felly, i Aelodau gymryd nid yn unig y risgiau cymdeithasol ond hefyd y rhai ariannol o newid yn yr hinsawdd yn ddifrifol trwy gymryd camau i gyfyngu risg aelodau Cronfa Bensiwn Powys i buddsoddiadau mewn tanwydd ffosil [1], sydd nid yn unig yn farchnad sy'n marw ond hefyd un sydd â risg uchel. Mae arbenigwyr yn cytuno y bydd yn rhaid i'r mwyafrif (oddeutu 75%) o'r tanwydd ffosil sy'n parhau yn y ddaear aros yno os ydym i osgoi effeithiau trychinebus newid yn yr hinsawdd [2] ac mae hyd yn oed Llywodraethwr Banc Lloegr wedi rhybuddio bod asedau

glo ac olew mewn perygl a bod dad-carboneiddio yn gyfle mawr i fuddsoddwyr [3]. Felly, byddwn yn gwarchod buddiannau ein pensiynwyr orau trwy fuddsoddiadau sy'n edrych ymlaen i'r dyfodol o dyfu diwydiannau gwyrdd, megis ynni gwyrdd a allai fod yn allweddol i ddyfodol economaidd Cymru ei hun.

Trwy ymuno â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, mae gennym gyfle i ddylanwadu ar fuddsoddi tua £16 biliwn yn lle £620 miliwn – i nifer ohonom, cyfle sy'n digwydd dim ond unwaith mewn bywyd i gael effaith go iawn ar lesiant ein cenedlaethau'r dyfodol a'r rheiny dros y byd i gyd.

Byddai'r camau hyn nid yn unig yn cefnogi'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond hefyd cynllun Llesiant drafft Powys ei hun hefyd, sydd â'r nod i "ddatblygu strategaeth sy'n cael effaith bositif ar garbon ac sy'n gwneud y mwyaf o gynhyrchu ynni gwyrdd".

Rwyf felly'n galw ar y Cyngor i gefnogi'n gyhoeddus yr egwyddor o ddadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil ac i ddechrau lobïo Partneriaeth Pensiwn Cymru i gynnwys dadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil yn ei flaenoriaethau ESG. Yn benodol, rwy'n gofyn;

1. I'r Arweinydd i ysgrifennu at Gronfa Bensiwn Powys yn galw iddynt:
    a. Gefnogi'r egwyddor o ddadfuddsoddi
    b. Lobïo Partneriaeth Pensiwn Cymru i leihau ei fuddsoddiadau mewn tanwydd ffosil i sero dros y 5 mlynedd nesaf, yn cynnwys cynlluniau i arallgyfeirio i ddulliau adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a thechnolegau storio ynni.
2. Y Gyngor a Chronfa Bensiwn Powys i weithio gydag awdurdodau lleol eraill sy'n cael eu gwasanaethau gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru i weithio gyda'i gilydd ar ddadfuddsoddi ac arallgyfeirio.
3. I weithio gyda chynrychiolwyr undebau llafur a'r gweithlu i'w cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer dadfuddsoddi ac arallgyfeirio.

Er na ellir cyfeirio'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi i weithredu camau 1.a ac 1.b, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu hystyried i'w mabwysiadu yn ystod camau cynnar Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Emily Durrant
Eilydd: Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan

[1] https://www.theguardian.com/environment/2013/apr/19/carbon-bubble-financial-crash-crisis

[2] *Mae arbenigwyr blaenllaw wedi rhybuddio y bydd yn rhaid i oddeutu 75% o'r tanwydd ffosil sy'n weddill aros yn y ddaear os ydym i osgoi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd:*
https://www.theguardian.com/environment/2015/apr/22/earth-day-scientists-warning-fossil-fuels-

[3] https://www.theguardian.com/environment/2014/oct/13/mark-carney-fossil-fuel-reserves-burned-carbon-bubble

15.5. **Rhybudd o Gynnig - Lleihau'r Defnydd o Blastig**

Mae erchyllion ein dibyniaeth ar blastig bellach yn wybodaeth gyffredin. Mae gan blastig lle pwysig yn ein datblygiad technolegol ac mewn llawer o ffyrdd mae'n gynnyrch dyfeisgar a chwyldroadol. Serch hynny, mae'n bryd am chwyldro plastig arall. Mae'n bryd i gael gwared ar blastig un-defnydd. Ar ôl cael fy ethol i'r Cyngor ym mis Mai, roeddwn yn siomedig iawn gan nifer y cwpanau plastig un-defnydd a chwpanau cyfansawdd un-defnydd a ddefnyddir gan Aelodau, staff ac ymwelwyr bob dydd. Mae'r ymateb i'r ymgyrch ddiweddar 'Powys Di-blastig' yn arwydd y byddai trigolion yn debygol o fod yr un mor siomedig.

A wnaiff Aelodau ddangos arweiniad trwy ofyn i'r Cyngor ;

A) Hyrwyddo Powys fel awdurdod sydd ar flaen y gad i gwtogi plastig

B) Datblygu strategaeth i:
  1. Annog staff a thrigolion i:
     a. Gludo poteli dŵr y gellir eu hail-lenwi ac yn yr hir-dymor, ystyried ffynhonnau ddwr yng nghanol trefi lle gellir eu hail-lenwi.
     b. Cludo cwpanau coffi y gellir eu hailddefnyddio ac i wrthod cwpanau coffi un-defnydd (er enghraifft, mae codi tâl o 5c ar gwpanau coffi un-defnydd mewn adeiladau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor yn un syniad)
     c. Osgoi cynhyrchion gyda gleiniau micro a chofio i fflysio papur yn unig yn eu toiledau. Byddai peidio â fflysio weips bach, ffyn gwlan cotwm a lensys cyffwrdd i lawr y toiled yn lleihau'r plastig yn y môr ac yn helpu'r system garthffosiaeth.
  2. Annog mannau bwyd a diod ar draws y sir i:
     a. Gynnig dewis bioddiraddadwy ac i hysbysebu'r parodrwydd i lenwi cwpanau pobl
     b. Defnyddio gwellt papur a dim rhai plastig

Cynigydd: Cynghorydd Sir Emily Durrant

Eilydd: Cynghorydd Sir Bryn Davies

| 16. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

16.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

Beth oedd cyfanswm cost gwreiddiol datblygiad 'y Gaer' yn Aberhonddu a beth yw cyfanswm y gost erbyn hyn? Sut y cafodd ei ariannu a sut y mae’n cael ei ariannu nawr?

(Tudalennau 289 - 290)

16.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adfywio gan y Cynghorydd Sir Kathryn Silk**

Pa ganran o ddeiliaid tai a busnesau ym Mhowys sydd â mynediad at gyflymderau band eang o 10Mbs neu fwy; beth mae'r Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod pob cartref a busnes yn cael mynediad o'r fath; a pha asesiad mae'r Cabinet wedi'i wneud o'r anfantais economaidd i ddeiliaid tai a busnesau sydd heb fynediad o'r fath?

(Tudalennau 291 - 292)

16.3. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A fydd yr Arweinydd yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar gyflawni dogfen ei gweinyddiaeth - Gweledigaeth 2025?

(Tudalennau 293 - 294)

16.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Pa asesiad a wnaed gan y Cabinet o’r effaith y bydd y cau sydd wedi’i gynllunio o Ganolfan Croeso Aberhonddu yn ei gael ar yr economi leol?

(Tudalennau 295 - 296)

16.5. **Cwestiwn i'r Cynghorydd Sir William Powell, Aelod o Banel Heddlu a Throseddau Dyfed Powys gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

Beth yw’r blaenoriaethau ar gyfer plismona ein cymunedau gwledig iawn ym Mhowys?

(Tudalennau 297 - 298)

16.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies**

Fel arfer, mae’r Fformiwla Ariannu Teg yn cael ei chylchredeg ar gyfer ymgynghori o amgylch tymor y Nadolig – hyd yr hyn rwy’n gwybod nid yw wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori eto:  pryd bydd y fformiwla’n cael ei gylchredeg?

(Tudalennau 299 - 300)

16.7. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff a'r Aelod Portffolio ar faterion Adnoddau Dynol, TGCh a Chyfathrebu gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies**

Mae tipyn wedi cael ei ddweud yn ddiweddar am y boblogaeth sy'n heneiddio a'r pwysau cysylltiedig ar wasanaethau rheng flaen. Mae cynnydd mewn dementia, pobl sydd â phroblemau symudedd a rhagor o alwadau ar ofalwyr / darparwyr gofal.

Nid yw Powys yn darparu rhestr o ddyddiadau ar gyfer casgliadau sbwriel sy'n gallu achosi dryswch i bobl a'u gofalwyr. Nid oes mynediad gan bawb i gyfrifiadur i gael hyd i wybodaeth.

Roedd hi'n anffodus y cafwyd problemau gyda'r casgliadau gwastraff cyn y Nadolig oherwydd y tywydd. Nid oedd hi'n glir pryd yr oedd y sbwriel yn cael ei gasglu.
Yn ogystal â hyn roedd y dryswch am y newid i'r diwrnod casglu arferol dros y Nadolig a diwrnod casglu gwahanol ar gyfer y cyfnod dros y Flwyddyn Newydd?

Pa gynllun sydd gan yr aelod portffolio ar faterion sbwriel/ailgylchu i wneud yn siŵr bod aelodau o'r cyhoedd yn gwybod pryd i roi eu sbwriel allan i'w gasglu: biniau du (sachau porffor) a blychau lliw?
A yw'r ddau aelod portffolio yn cydweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol?

(Tudalennau 301 - 302)

16.8. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir David Meredith**

Rwy'n deall bod dau ymgynghorydd wedi'u cyflogi i gynorthwyo drafftio Polisi Ysgolion - Ariannu Teg diwygiedig. Gan fod yr apwyntiadau hyn yn ychwanegol at gyflogi Cyfarwyddwr Addysg parhaol a all yr Aelod Cabinet ar faterion Addysg gwneud datganiad ar ddefnydd yr Adran o ymgynghorwyr?

(Tudalennau 303 - 304)

16.9. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff a'r Aelod Portffolio ar faterion Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Pa asesiad a wnaed gan y Cabinet o berfformiad (a) ariannol a (b) gweithredol Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf?
(Tudalennau 305 - 306)

16.10. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Pa asesiad a wnaed gan y Cabinet o gyflwr ffyrdd ddi-ddosbarth ym Mhowys?
(Tudalennau 307 - 308)

16.11. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Oedolion gan y Cynghorydd Sir Huw Williams**

A all yr Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion egluro pa wasanaeth penodol sy'n cael ei arwain gan angen a sbardunodd y cais llwyddiannus i'r Cabinet ar ddiwedd 2017 am gymorth ariannol ychwanegol?

(Tudalennau 309 - 310)

16.12. **Cwestiwn i'r Cynghorydd Sir Emily Durrant, Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan y Cynghorydd Sir William Powell**

O ystyried yr Adolygiad diweddar a hysbysebwyd o Gynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2007 – 2022), sut y bydd Aelodau'r Parc Cenedlaethol yn sicrhau bod yr Awdurdod yn ymgysylltu'n rhagweithiol gyda ei chymunedau cyfansoddol a'u cynrychiolwyr Cynghorau Sir, Tref a Chymuned, i wella effeithiolrwydd ac eglurder y broses?

Yn enwedig, sut y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn sicrhau bod adolygiad y CDLl yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn ystyried sut y gellir cyflawni dyraniadau tai a digonolrwydd dyraniadau cyflogaeth a safleoedd defnydd cymysg, i ddiwallu dyheadau ac anghenion y gymuned leol, yn ogystal â blaenoriaethau polisi trosfwaol Llywodraeth Cymru?
(Tudalennau 311 - 312)

16.13. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Plant, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Hamdden gan y Cynghorydd Sir Gareth Morgan**

Mae penderfyniad diweddar y Cabinet i gau Canolfan Addysg Awyr Agored Penffordd-las wedi achosi tipyn o bryder ledled Powys. A all yr aelod portffolio cadarnhau bod ymgynghoriad cyhoeddus llawn (yn cynnwys gydag ysgolion Powys) ynghyd ag Asesiad Effaith llawn wedi cael ei gynnal cyn bod yr eitem wedi dod o flaen y Cabinet am benderfyniad yn unol â gofynion y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant?

(Tudalennau 313 - 314)

16.14. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Gyda'r gwaith bron a dod i ben ar Ysgol ardal y Mynydd Du gyda llyfrgell/cyfleusterau cymunedol ar Heol y Gelli, Talgarth, bydd safleoedd ysgolion cyfredol Bronllys a Thalgarth yn dod yn segur cyn bo hir, yn ogystal â Llyfrgell Gangen Talgarth. Er y deallir y pwysigrwydd bod Cyngor Sir Powys yn dilyn protocol, ac yn osgoi unrhyw gamau byrbwyll, mae'n bwysig gwneud cynlluniau cynhwysfawr i ymgynghori ar y defnydd o'r safleoedd hyn yn y dyfodol, gan ystyried nid yn unig polisi'r Cyngor Sir ond hefyd teimladau cymunedol a dyheadau lleol.

Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun asedau Talgarth, gan eu bod yn fwy eang ac yn syrthio o fewn cyfundrefn cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn cynnwys: yr hen Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol, yr Ysgol Gynradd bresennol, Caban Cadlanciau'r Fyddin, y Llyfrgell a'r Cae Ysgol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr yn lleol.

O ystyried lefel y diddordeb a phryder yn lleol am y safleoedd allweddol hyn, a fydd yr Aelod Cabinet yn cysylltu â'i gydweithwyr portffolio perthnasol a minnau fel yr Aelod Lleol i drefnu cyfarfod i drafod yn agored a thryloyw, dyfodol yr asedau hyn yng nghalon y dref?

O gofio profiad hanesyddol yn lleol o esgeuluso hen Ysbyty Canolbarth Cymru, a'r diffygion yn gysylltiedig â gwaredu'r safle hwnnw, mae'n hanfodol ein bod yn mabwysiadu dull agored a rhagweithiol ac un a fydd yn cynnwys Cyngor Tref Talgarth, rhanddeiliaid lleol a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(Tudalennau 315 - 316)

16.15. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt**

O ystyried y digwyddiadau diweddar yn gysylltiedig â chwymp Carillion, a all yr Arweinydd sicrhau ni bod yr holl gytundebau allanol a roddir gan y Cyngor Sir wedi'u geirio lle bod achosion lle defnyddir is-gontractwyr lleol gan y prif gontractwr bod y telerau talu heb fod yn fwy na 30 diwrnod a hefyd a allith hi amlinellu pa fesurau sydd gan Gyngor Sir Powys yn ei le er mwyn sicrhau bod taliadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn dull amserol? A yw hi'n gallu ein sicrhau ymhellach na fydd y Cyngor Sir yn dioddef unrhyw golledion uniongyrchol, un ai o ran contractau wedi'u oedi neu unrhyw golled ariannol gwirioneddol o ganlyniad i Carillion yn cael ei roi yn nwylo gweinyddwyr?
(To Follow)

**Mae'r eitem ganlynol wedi'i threfnu ar gyfer 2.00 p.m.**

| 17. | GWOBRAU YSGOLION IACH |
|---|---|

Derbyn cyflwyniadau gan ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Crughywel, Ysgol Penmaes ac Ysgol GG Mount Street sy’n derbyn Gwobr Ansawdd Cenedlaethol Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru.

**Mae'r eitem ganlynol wedi'i threfnu ar gyfer 2.30 p.m.**

| 18. | CYFLWYNIAD GAN CHWARAEON POWYS |
|---|---|

Derbyn cyflwyniad gan Chwaraeon Powys sydd wedi ennill achrediad Efydd ‘insport’ Anabledd Chwaraeon Cymru.